

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gellir gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**

**12 Mawrth 2021**

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

1.1. Mae Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("yr Offeryn hwn") yn diwygio'r Offerynnau Statudol a restrir isod sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau a labelu cyfansoddiadol bwyd a hadau. Mae angen y diwygiadau hyn i fynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a sicrhau y gall y llyfr statud weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig (DU) adael yr UE.

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007
- Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016

1.2 Bydd y dyddiad y daw'r offeryn i rym yn cael ei gadarnhau unwaith y penderfynir ar y broses graffu, gan ystyried argymhellion y pwyllgor sifftio.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Gwneir yr offeryn hwn gan ddefnyddio'r pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018").

2.2 Fel y nodir yn y Datganiad Gweinidogol yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

2.3 Mae'r Offeryn yn gwneud darpariaethau trosiannol a newidiadau technegol, felly ystyrir ei bod yn briodol gwneud yr Offeryn hwn yn destun dirymiad yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

2.4 Mae'r Offeryn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 i fynd i'r afael â phwynt a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Caiff yr offeryn hwn ei lunio gan ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) i weithredu'n effeithiol, neu ddiffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Gwneir yr offeryn hefyd o dan baragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 sy'n darparu bod unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2018 yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth atodol, achlysurol, canlyniadol, trosiannol, dros dro neu arbed. Yn unol â gofynion y Ddeddf honno, mae'r Gweinidog wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

### 4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

*Beth oedd unrhyw gyfraith berthnasol yn yr UE yn ei chyflawni cyn Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu?*

#### Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Roedd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi'r offerynnau UE canlynol mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (CE) 852/2004 yn gosod yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynhyrchu bwydydd mewn ffordd hylan gan weithredwyr busnesau bwyd.
- Rheoliad (CE) 853/2004 yn gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.
- Rheoliad (CE) 854/2004 yn gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd i'w bwyta gan bobl.
- Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd.
- Rheoliad (CE) 2075/2005 yn gosod rheolau penodol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig.

Mae Rheoliadau 2006 yn sefydlu'r mecanweithiau gorfodi i awdurdodau cymwys weithredu rheolau hylendid bwyd yr UE a nodi'r atebion sydd ar gael i awdurdodau gorfodi wrth ddarganfod unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

Mae Rheoliadau 2006 hefyd yn darparu ar gyfer caffael a dadansoddi samplau ac yn creu rhagdybiaeth bod bwyd penodedig wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl.

## **Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007**

Mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007 yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad (CE) Rhif 37/2005 mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliad 37/2005 yr UE, fel y'i gweithredir yng Nghymru gan y Rheoliadau hyn, yn darparu rheolau ar gyfer monitro tymheredd wrth gludo, cadw mewn warysau a storio deunyddiau bwyd wedi'u rhewi'n gyflym y bwriedir i bobl eu bwyta, ac ar gyfer labelu'r deunyddiau hynny.

## **Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

Mae Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliadau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt.
- Rheoliad (CE) Rhif 1332/2008 ar ensymau bwyd.
- Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd.
- Rheoliad y Comisiwn UE Rhif 231/2012 yn gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a gymeradwywyd o dan 1333/2008.
- Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a rhai cynhwysion bwyd gyda nodweddion cyflasynnau i'w defnyddio mewn bwydydd ac arnynt.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn trosi Cyfarwyddeb 2009/32/EC ar doddyddion echdynnu a ddefnyddir i gynhyrchu deunyddiau bwyd a chynhwysion bwyd.

Defnyddir y sylweddau gwella bwyd a reoleiddir gan y Rheoliadau hyn mewn neu ar fwyd at bwrpas technolegol wrth ei gynhyrchu neu ei storio. Fe'u defnyddir hefyd i wella blas, gwead ac ymddangosiad bwyd. Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth wedi'i chysoni yr UE sy'n llywodraethu'r sylweddau hyn yn gofyn am asesiad risg ac awdurdodiad cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu rhestrau o sylweddau a ganiateir, manylebau cymwys, amodau defnyddio, ynghyd â chategoriâu o fwydydd y gellir eu defnyddio ynddynt. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu gofynion labelu penodol ar gyfer rhai cynhyrchion bwyd a werthir i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys rhybudd gorfodol ar gynhyrchion sy'n cynnwys aspartame gan ei fod yn ffynhonnell o ffenylalanin, a allai fod yn niweidiol i'r rhai sy'n dioddef o Phenylketonuria.

## **Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

Mae Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015 yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC sy'n ymwneud â mêl. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi gofynion cyfansoddiadol mewn perthynas â mêl a'r enwau neilltuedig y gellir eu rhoi ar fêl, yn ogystal â gofynion labelu.

## **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer parhau i orfodi neu weithredu Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar ddiogelwch bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid wedi'i addasu'n enetig (GM), ychwanegion bwyd, marchnata a defnyddio bwyd anifeiliaid, sylweddau annymunol (halogion) mewn bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol.

## **Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016**

Mae'r Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016 (drafft) yn trosi gofynion Cyfarwyddeb (UE) 2015/2203 ar gaseinau a chaseinadau y bwriedir i bobl eu bwyta.

Mae Cyfarwyddeb (UE) 2015/2203 ar gaseinau a chaseinadau y bwriedir i bobl eu bwyta yn nodi manylebau ar gyfer defnyddio disgrifiadau neilltuedig, manylebau gweithgynhyrchu a labelu cynhyrchion casein er mwyn sicrhau eu bod yn gallu symud yn rhydd o fewn yr UE. Mae hefyd yn alinio'r gofynion cyfansoddiad gyda'r safon ryngwladol a osodwyd gan y Codex Alimentarius er mwyn cysondeb ac er mwyn osgoi camargraffiadau masnach.

### **Pam ei bod yn cael ei newid?**

Mae'r newidiadau a wneir gan yr Offeryn hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gorfodi cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac i ychwanegu cyfnod addasu trosiannol a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 mis ar gyfer rhai newidiadau.

Mae'r newidiadau penodol sy'n cael eu cynnig i'r Rheoliadau y manylir arnynt yn 1.1 uchod fel a ganlyn:

### **Beth fydd y Rheoliadau yn ei gyflawni nawr?**

## **Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu, a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022, i gynhyrchwyr ddefnyddio marciau iechyd ac adnabod ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cydymffurfio â gofynion Atodiad 1 i Reoliad (CE) 853/2004 ac Atodiad 1 i Reoliad (CE) 854/2004, fel y cawsant effaith ar unwaith cyn Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

### **Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007**

- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 i ganiatáu i gynhyrchwyr barhau i ddefnyddio labeli presennol.

### **Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

- Diwygio gofynion awdurdodi i ddarparu mai dim ond y person sydd wedi cyflwyno cais i gofnodi'r amrywiaethau dan sylw ar restr amrywiaethau Prydain Fawr neu restr amrywiaethau Gogledd Iwerddon sy'n gallu gwneud cais awdurdodi i farchnata mathau heb eu rhestru o hadau llysiâu.

### **Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 i ganiatáu i gynhyrchwyr barhau i ddefnyddio labeli presennol.

### **Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

- Diwygio gofynion labelu lle mae mêl yn cael ei gymysgu â mêl o fwy nag un wlad. Ar hyn o bryd, yn lle rhestru'r gwledydd tarddiad unigol, gellir labelu mêl cyfun fel "cyfuniad o fêl yr UE", "cyfuniad o fêl o wledydd y tu allan i'r UE" neu "gyfuniad o fêl yr UE a mêl o du allan i'r UE". Bydd y diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i fêl cyfun nad yw wedi'i labelu â phob un o'r gwledydd tarddiad unigol arddangos 'cyfuniad o fêl o fwy nag un wlad' neu eiriad cyfwerth. Gwneir newid cyfatebol i labelu Cymraeg.
- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 i ganiatáu i gynhyrchwyr barhau i ddefnyddio labeli presennol.

### **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 i ganiatáu i gynhyrchwyr barhau i ddefnyddio labeli presennol.

## **Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016**

- Mewnosod darpariaeth drosiannol i ganiatáu cyfnod addasu a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2022 i ganiatáu i gynhyrchwyr barhau i ddefnyddio labeli presennol.

## **5. Ymgynghoriad**

Mae'r ASB ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) wedi cynnal sawl ymgynghoriad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i gyfreithiau o ganlyniad i adael yr UE. Mae'r diwydiant ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r cynigion hyn ac yn eu cefnogi. Mae cysyniad y cyfnod addasu trosiannol sy'n dod i ben ar 30 Medi 2022 eisoes yn gyhoeddus.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1 Ni pharatowyd Asesiad Effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan mai ei bwrpas yw cynnal gweithrediad y cyfundrefnau presennol. Ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.
- 6.2 Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na phartneriaid statudol (adrannau 72-75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

# Atodiad 1

## Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### Rhan 1

#### Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ble nodir y gofyniad	I bwy y mae'n berthnasol	Yr hyn sydd ei angen
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7  Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol Negyddol  Mae paragraff 3(7) yn berthnasol i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i egluro pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn	Datganiad i egluro'r rhesymau da dros lunio'r offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn



		adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	ffordd resymol o weithredu.
Cydraddoldebau	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymadau neu ddirymadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010, ac i ddeddfwriaeth a luniwyd oddi tanynt.  Datganiad yn nodi bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 77	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn, er enghraifft p'un a fwriedir mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30,	Yn berthnasol i	Datganiad i egluro pam ei bod

	Atodlen 7	<p>Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 18(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer</p>	yn briodol greu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen llunio'r Offeryn Statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

## Rhan 2:

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf 2018 yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

### 1. Datganiad(au) sifftio

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, dylai Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 fod yn destun dirymiad yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (hynny yw, y weithdrefn negyddol).”

Nid oes unrhyw newid i bolisi.

### 2. Datganiad priodoldeb

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 yn gwneud mwy nag sy'n briodol.”

Mae hyn yn wir gan fod yr holl newidiadau sy'n cael eu gwneud er mwyn cynnal effeithiolrwydd gweithredol yn unig ar ôl ymadael â'r UE. Nid oes unrhyw newid i bolisi.

### 3. Rhesymau da

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Yn fy marn i mae yna resymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rydw i wedi dod i'r casgliad eu bod nhw'n ffordd resymol o weithredu.”

Y rhain yw y byddai methu â gwneud y ddeddfwriaeth hon yn arwain at ddeddfwriaeth Gymreig yn ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd, safonau a labelu cyfansoddiadol bwyd a hadau yn methu â gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

#### **4. Cydraddoldebau**

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

“Nid yw'r Offeryn yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006, na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny.”

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn, rydw i, Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.”

#### **5. Esboniadau**

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Pwrpas ac effaith bwriadedig y ddeddfwriaeth) prif gorff y memorandum esboniadol hwn.

#### **6. Troseddau**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

#### **7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

#### **8. Brys**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.